CANLLAW I FYFYRWYR AR YR HOLL DASGAU

“Gŵyl Gerddoriaeth Gymreig”

Briff

Rydych chi newydd gael eich penodi yn rheolwr prosiect gan dîm rheoli cwmni cynhyrchu bach sy’n trefnu gŵyl gerddoriaeth yng Ngogledd Cymru. Mae’r tîm eisiau i chi eu helpu nhw i benderfynu ar ba fath o ddelwedd y dylid ei defnyddio i farchnata’r ŵyl, a hefyd pa fathau o gerddoriaeth fyw a fyddai’n apelio at y gynulleidfa darged, sef pobl ifanc.

Gofynnwyd i chi ymchwilio i:

- Wahanol wyliau cerddoriaeth ym Mhrydain gan gynnwys:
    - sut maent yn hyrwyddo eu busnes
    - y math o gerddoriaeth/bandiau a drefnir
    - mathau o leoliadau, prisiau ac unrhyw beth arall maent yn ei gynnig
    - gwasanaethau lleol – e.e. llety, siopau, bariau/bwytai, gorsafoedd petrol gan gynnwys sut maent yn cyflwyno’r wybodaeth a’r cyfeiriadau.
- Gwahanol syniadau ar gyfer creu logo i roi delwedd unigryw i’r ŵyl.

Bydd gofyn i chi ddylunio deunyddiau cyhoeddusrwydd e.e. tocynnau, llythyrau, taflenni a phamffledi i gyd-fynd â delwedd gyffredinol yr ŵyl. Bydd angen i chi greu cyflwyniad i roi eich syniadau gerbron y tîm rheoli. Mae’r tîm hefyd yn gofyn i chi greu taenlen er mwyn iddynt allu cyfrifo cost cynnal yr ŵyl a gweld faint y bydd rhaid iddynt ei godi ar bobl wrth y giât er mwyn gwneud elw. Bydd rhaid i chi ddiweddaru a defnyddio cronfa ddata i ddod o hyd i wybodaeth neilltuol yn ymwneud â’r masnachwyr a fydd hefyd ar y safle.

Mae’n bwysig i chi darllen yr aseiniad i gyd cyn mynd ati i ddechrau ar y gwaith, er mwyn bod yn gyfarwydd â gofynion pob tasg.

TASG 1 (AO2a): Ymchwilio ar y We a Dylunio Logo

Llyfr Gwaith: Tasg 1 – AO2a (Y We).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 1:
CHWILIO AR Y WE
Eich tasg chi yw chwilio ar y we am wybodaeth berthnasol a fydd yn dweud wrthych chi sut mae gwyliau cerddoriaeth eraill yn cael eu cyflwyno, a chwilio am wybodaeth a fydd yn eich helpu chi i drefnu a datblygu eich gŵyl (Tasgau 3 a 5). Cofiwch y bydd angen i chi benderfynu ar enw i'r ŵyl, a ble y caiff ei chynnal.

Gallai eich gwaith ymchwil chi gynnwys y canlynol (a fydd yn cael ei ddefnyddio yn eich deunyddiau hyrwyddo ac ati):

- edrych ar wefannau gwyliau eraill ar gyfer syniadau am arddull cwmni, logos, yr wybodaeth a gyflwynir i gynulleidfaoedd ac ati.
- costau arferol i bobl sy'n mynd i ŵyl e.e. tocyn, parcio car, gwersylla, nwyddau i gofio am yr ŵyl
- dod o hyd i wybodaeth neilltuol am fandiau allai fod yn perfformio
- dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau lleol a llefydd i aros
- chwilio am ddelweddau penodol
- chwilio am fapiau a'u haddasu i'w cynnwys mewn cyhoeddiadau.

Dylech chi feddwl yn ofalus am y meini prawf chwilio yr ydych chi'n eu defnyddio wrth chwilio ar y we, a chofio dangos tystiolaeth o sut yr ydych chi wedi defnyddio Chwiliad Uwch i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

- Cofnodwch bob chwiliad (yn y tabl yn y llyfr gwaith);
- Defnyddiwch saethiadau sgrin i ddangos meini prawf a chanlyniadau chwilio (rhowch dystiolaeth yn y llyfr gwaith).

Wrth chwilio ar y we, dylech chi:

- gadw cofnod o gyfeiriadau'r holl wefannau addas yr ydych chi wedi dod ar eu traws/eu defnyddio, gan gofnodi perthnasedd yr wybodaeth a gafwyd, URL ac ati.
- cadw cyfeiriadau defnyddiol fel ffefrynnau/dalen-nodau a'u trefnu'n briodol mewn ffolderi.
- egluro materion hawlfraint a rhoi sylwadau ar ddilysrwydd a dibynadwyedd yr wybodaeth a ddefnyddir (gwefannau dibynadwy e.e. .gov, BBC; a yw'r wybodaeth yn ddiweddar? Pwy yw'r awdur?).

TASG 2 (AO6): Gweithio gyda'r Gronfa Ddata 'Masnachwyr'

Llyfr Gwaith: Tasg 2 – AO6 (Cronfa Ddata).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 2:

Yn y dasg hon, mae gofyn i chi weithio ar y Gronfa Ddata 'Masnachwyr' i'w diweddaru, a'i defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth neilltuol y bydd angen ei chyflwyno ar ffurf adroddiad addas.

Diweddarwch y Gronfa Ddata drwy fwydo, golygu a dileu data yn fanwl gywir.

- Ychwanegwch ddau fasnachwr newydd o'ch dewis chi at y gronfa ddata.
- Golygwch un cofnod gan newid un darn o ddata – mae'r masnachwr '**Allchips**' bellach wedi newid ei enw i '**John's Fish and Chips**'. Diweddarwch y Gronfa Ddata i ddangos hyn.
- Dilëwch fasnachwr o'r gronfa ddata - trefnwyd dau gwmni byrgers - dim ond cwmni '**Bob's Burgers**' sy'n dod bellach. Dilëwch y masnachwr '**Byrgers Blasus**'.

Chwilio, trefnu a chyflwyno data – bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

Ymholiad 1: Chwiliad Syml - Mae'r trydanwyr wedi gofyn am restr o'r masnachwyr a rhifau'r plotiau ble bydd angen trydan.

Ymholiad 2: Chwilio a Threfnu – Mae'r bwrdd dŵr wedi gofyn am restr o'r holl fasnachwyr sydd eisiau prif gyflenwad dŵr. Mae angen trefnu hyn yn ôl rhif plot. Mae angen cyflwyno hyn ar ffurf labeli cyfeiriadau i'w postio i'r bwrdd dŵr.

Ymholiad 3: Chwiliad Cymhleth – Mae angen rhestr o'r holl fasnachwyr bwyd a fydd yn dod i mewn drwy giât "A" i'w rhoi i stiward y giât. Cynhyrchwch restr o'r holl fasnachwyr ym Maes "A" a fydd yn gwerthu bwyd, yn nhrefn yr wyddor. Dylid cyflwyno hyn ar ffurf tabl.

Meini prawf chwilio eraill posibl:

- *Chwiliad syml - Mae'r tîm rheoli wedi gofyn am restr o'r holl fasnachwyr a fydd yn gwerthu bwyd - mae angen anfon llythyr atynt yn gofyn am gopi o'u tystysgrif Hylendid Bwyd felly bydd angen cyflwyno'r data ar ffurf rhestr.*

TASG 3 (AO4): Datblygu Cyhoeddiadau Allweddol

Llyfrau Gwaith: Tasg 3 – AO4a (tocyn).ppt
Tasg 3 – AO4b (llythyr).ppt
Tasg 3 – AO4c (dogfen un dudalen).ppt
Tasg 3 – AO4d (dogfen mwy nag un dudalen).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 3:

Er mwyn hyrwyddo'r ŵyl a chysylltu â'r holl fasnachwyr, bydd angen i chi ddylunio a chreu 4 dogfen wahanol, i'w hargraffu. Sef:

- Tocyn i'r ŵyl
- Llythyr Gwybodaeth i'r holl fasnachwyr. Dylai'r llythyr gyfleu arddull cwmni'r ŵyl a chadarnhau presenoldeb, dyddiad ac amser cyrraedd, lleoliad y plot a chost ac ati (*post gyfuno o'r gronfa ddata 'Masnachwyr').*
- Poster Hysbysebu i oedolion ifanc (e.e. 13 i 21oed).
- Rhaglen/Pamffled yr ŵyl i'r cyhoedd (*Teilyngdod - 2 dudalen neu fwy, Anrhydedd – 3 tudalen neu fwy*).

Ar gyfer pob un o'r uchod, dylech ystyried:

- nod a phwrpas y ddogfen
- y gynulleidfa darged
- cynnwys/gwybodaeth ar gyfer pob dogfen
- i gael Teilyngdod ac Anrhydedd, rhaid i'r Poster a'r Pamffled gynnwys graffeg o amrywiaeth o wahanol ffynonellau a defnyddio ystod o gyfleusterau/adnoddau meddalwedd
- arddull cwmni gyson (efallai y penderfynwch chi ddylunio a chreu logo addas i'r ŵyl ar becyn graffeg - cofiwch ei gadw mewn fformat ffeil addas)
- dylai pob dogfen fod yn addas a heb wallau.

Mae'n bwysig eich bod chi yn:

- gwneud saethiad sgrin neu gadw eich gwaith ar wahanol adegau i ddangos sut yr ydych chi wedi ei ddatblygu a'i wella – rhowch nodiadau i dynnu sylw a dangos datblygiadau
- cydnabod y ffynonellau a ddefnyddir (delweddau, gwybodaeth ac ati yn y tabl a ddarperir)
- argraffu eich dogfennau gorffenedig (yn ddelfrydol, dylai dogfennau a gyflwynir yn electronig fod ar ffurf ffeiliau .pdf).

TASG, 4 (AO5): Modelu Costau

Llyfr Gwaith: Tasg 4 – AO5 (Taenlen).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 4:
Bydd angen rhoi dadansoddiad i'r tîm rheoli o'r costau a braslun o'r gwahanol sefyllfaoedd allai effeithio ar lwyddiant yr ŵyl e.e. tywydd da/gwael, costau hysbysebu, posibilrwydd o gynnig cyfleusterau gwersylla, parcio car – am ddim/tâl, bandiau enwog.

Defnyddiwch yr wybodaeth isod i greu eich taenlen/model.

Costau:

- mae angen amryw o stiwardiaid am £100 y dydd (tua 1 stiward i bob 50 o bobl yn yr ŵyl)
- 12 band, ar y mwyaf, sy'n gallu chwarae - mae'r rhain wedi'u rhoi mewn tri dosbarth (isod):
    - bandiau ar restr "A" sy'n costio hyd at £5,000 yr un
    - bandiau ar restr "B" sy'n costio hyd at £2,500 yr un
    - bandiau ar restr "C" sy'n costio hyd at £1,000 yr un
- lleoliad a chostau gwasanaethau £10,000 (mae hyn yn cynnwys trydan, dŵr, sbwriel, man parcio)
- costau hysbysebu o £5,000 i ddechrau.

Incwm:
Dyma'r ffynonellau incwm:

- incwm rhent masnachwyr
    - Maint 1 - £750 (5 i 8 ar gael)
    - Maint 2 - £500 (8 i 10 ar gael)
    - Maint 3 - £250 (hyd at 12 ar gael)
      (mae digon o blotiau i 25 o fasnachwyr)

O'ch gwaith ymchwil yn Nhasg 1, gallwch ymchwilio i gostau'r canlynol:

- gwerthu tocynnau (efallai y byddwch chi'n penderfynu cael prisiau gwahanol ar gyfer tocynnau a brynir o flaen llaw a thocynnau a brynir wrth y drws)
- parcio ceir
- costau gwersylla
- gwerthu nwyddau i gofio am yr ŵyl

Ystyriaethau:

- mae'r Frigâd Dân wedi cadarnhau bod y lleoliad yn gallu dal 1500 o bobl ar y mwyaf er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol
- rydych chi wedi cael cyllideb gychwynnol o £50,000
- disgwylir i'r ŵyl wneud elw o £10,000 o leiaf.

Meini Prawf Llwyddiant:
Rhaid i chi ddangos tystiolaeth bod eich taenlen fodel:

1. yn glir ac yn hawdd i'w darllen a'i deall
2. yn defnyddio fformiwlâu a ffwythiannau priodol
3. wedi'i fformatio fel bod modd ei hargraffu yn hawdd (gwedd normal a fformiwla)
4. yn dangos elw neu golled cyffredinol
5. yn gallu newid gwerthoedd e.e. prisiau tocynnau, gwerthiant, a chostau neu incwm arall, i fodelu'r effaith a gaiff hyn ar yr elw/colled cyffredinol
6. gallu ychwanegu neu ddileu costau neu incwm ychwanegol.

TASG 5 (AO3 a AO2b): Cyflwyniad Busnes

Llyfr Gwaith: Tasg 5 – AO3 (Cyflwyniad).ppt
Tasg 5 – AO2b (E-bost).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 5:

Yn y dasg hon, fe fyddwch chi'n defnyddio meddalwedd cyflwyno i greu cyflwyniad i dîm rheoli'r ŵyl. Mae angen i'ch cyflwyniad chi ganolbwyntio ar gyfleu'r wybodaeth hon:

- Manylion yr ŵyl – dyddiadau, lleoliad, sêr yr ŵyl, ac ati,
- Math o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n cael eu datblygu – dangoswch rai enghreifftiau.
- Enghraifft o ddyluniad tocyn yr ŵyl.
- Incwm a gwariant a ragwelir
    - prif incwm a gwariant ar ffurf tablau
    - data priodol ar ffurf siart
    - gwerthiant tocynnau a ragwelir a modelu elw/colled/heb ennill na cholli
    - canlyniad ymchwilio i fodelu ariannol
- Unrhyw wybodaeth addas arall.

Mae angen i'ch cyflwyniad chi fod yn 5 sleid neu fwy, a dangos y nodweddion hyn:

- Arddull cwmni gyson ar draws pob sleid
- Defnyddio testun priodol a graffeg briodol
- Effaith trawsnewid rhwng sleidiau ac animeiddiadau sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa
- Dim gwallau a safon sydd bron â bod yn broffesiynol
- Nodiadau siaradwr wedi'u hychwanegu ble bo hynny'n briodol
- Cyflwyniad wedi'i argraffu ar ffurf taflenni gyda nodiadau

Canllaw i Fyfyrwyr – Tasg E-bost (AO2b)

Gallai eich tystiolaeth e-bost ar gyfer AO2b ddilyn y drefn isod:

Derbyn e-bost	E-bost gan y tîm rheoli yn gofyn am gyflwyniad ar drefniadau'r ŵyl eleni.
Ateb	Cadarnhau i'r tîm rheoli bod y cais wedi dod i law a nodi dyddiad.
Ymlaen	Anfon ymlaen e-bost gwreiddiol at gydweithiwr yn dweud bod angen cwblhau'r cyflwyniad erbyn dyddiad arbennig.
Anfon (atodiad)	Anfon fersiwn drafft o'r cyflwyniad i gydweithiwr edrych drosto. *Nodwedd e-bost estynedig 1 – defnyddio llofnod e-bost*
	Nodwedd e-bost estynedig 2 – Gosod ateb awtomatig (e.e. allan o'r swyddfa/ar wyliau)
Derbyn (agor, cadw atodiad)	Cael fersiwn wedi'i addasu gan gydweithiwr – cadw'r atodiad
Anfon (mwy nag un derbynnydd + atodiad)	Anfon y cyflwyniad gorffenedig at y tîm rheoli (mwy nag un derbynnydd) *Nodwedd e-bost estynedig 3 - cc a bcc* *Nodwedd e-bost estynedig 4 – Gosod blaenoriaeth (pwysigrwydd mawr ac isel)* *Nodwedd e-bost estynedig 5 – Defnyddio llyfr cyfeiriadau i gadw, adfer a defnyddio cyfeiriadau e-bost a manylion cysylltiadau personol*

TEILYNGDOD: Dwy nodwedd e-bost estynedig

ANRHYDEDD: Pedair nodwedd e-bost estynedig

TASG 6 (AO1): Cyflwyniad Busnes Arferion Gweithio Ddiogel

Llyfr Gwaith: Tasg 6 – AO1 (Arferion Gweithio Diogel).ppt

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 6:

Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw at arferion gweithio diogel wrth ddefnyddio TGCh mewn amgylchedd busnes. Mae gofyn i chi gwblhau Llyfr Gwaith AO1 sy'n adnabod yr arferion gweithio diogel a pham eu bod nhw'n angenrheidiol. Gofalwch eich bod chi'n rhoi esboniadau manwl pan ofynnir i chi.

Bydd yr esboniadau yn cynnwys:

- camau i amddiffyn iechyd
- camau i amddiffyn diogelwch ffisegol
- camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu colli
- o leiaf un cam i amddiffyn mynediad anawdurdodedig at ffeiliau
- camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu haddasu
- arweiniad ar ddewis cyfrinair cryf.

I Basio – rhaid i chi gynnwys esboniadau, gydag enghreifftiau, ar o leiaf un cam ar gyfer pob un o'r eitemau sydd yn y rhestr bwled.

I gael Teilyngdod - dylid cynnwys amrywiaeth eangach o arferion gweithio diogel ar gyfer y camau a restrir, ynghyd ag esboniadau manylach. Ar ben hynny, dylech gynnwys camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu haddasu heb awdurdod.

I gael Anrhydedd – dylid hefyd cynnwys arweiniad addas ar ddewis cyfrinair cryf.

Bydd y lefel a gewch chi ar gyfer Amcan Asesu 1 yn dibynnu ar eglurder eich esboniadau, ystod y camau rydych chi'n eu cynnwys, a phriodoldeb yr enghreifftiau a rowch chi.